

| | |
|---------------------------|---|
| ADRODDIAD I'R: | Pwyllgor Trwyddedu |
| DYDDIAD: | 4 Rhagfyr 2019 |
| SWYDDOG ARWEINIOL: | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| SWYDDOG CYSWLLT: | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433 |
| TESTUN: | Polisi Casglu ar y Stryd Arfaethedig |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.2 I gyflwyno Polisi Casglu ar y Stryd arfaethedig i'r Aelodau ei ystyried, a fydd yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau tryloyw a chyson.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Mae deddfwriaeth yn gofyn bod y Cyngor yn trwyddedu Casgliadau ar y Stryd ar unrhyw stryd neu mewn unrhyw fan cyhoeddus at ddibenion elusennol neu ddibenion eraill.

- 2.2 Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor Bolisi clir a manwl i ystyried ceisiadau o'r fath, sy'n achosi rhywfaint o ansicrwydd i ymgeiswyr a Swyddogion Trwyddedu.

- 2.3 Mae Swyddogion wedi drafftio polisi cyfredol i'w ystyried, er mwyn i bob parti â diddordeb gael gwybod am y gofynion a'r broses.

3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Adran 5 o Ddeddf yr Heddlu, Ffatrioedd ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916 (fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a.251 ac Atodlen 29).

4. GWYBODAETH GEFNDIR

- 4.1 Mae gan y Cyngor rym dan y Ddeddf uchod i drwyddedu casgliadau a wnaed ar unrhyw stryd neu mewn unrhyw fan cyhoeddus at ddibenion

elusennol neu ddibenion eraill.

4.2

Yn ychwanegol at y grymoedd uchod, mae'r Cyngor wedi gwneud Rheoliadau o dan y ddeddfwriaeth uchod ar gyfer rheoli Casglu ar y Stryd yn y Sir.

4.3

Y polisi cyfredol yw y ***“caniateir un casgliad stryd yr wythnos mewn perthynas â phob tref / cymuned. Caniateir i gymdeithasau gynnal un casgliad yn unig ym mhob tref / cymuned o fewn cyfnod o 12 mis.”***

4.4

Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor gael polisi o'r fath, ystyrir ei bod yn ymarfer da i fabwysiadu polisi o'r fath i ddarparu ymgeiswyr â chanllawiau a'r Cyngor â fframwaith i wneud penderfyniadau tryloyw a chyson wrth ystyried ceisiadau. Bydd proses wedi'i dogfennu o gymorth i roi hyder i bobl sydd yn dymuno rhoi i elusen, eu bod yn gallu gwneud hynny yn ddidwyll gan wybod y bydd yr arian neu'r cynhyrchion y maent yn eu rhoi o fantais uniongyrchol i'r elusen.

4.5

Nod y polisi arfaethedig yw osgoi gorlenwi'r ardal â chasglwyr o elusennau gwahanol.

4.6

Dros y blynyddoedd, mae casgliadau elusennol wedi datblygu a bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r platfformau casglu arian pwerus sydd ar gael ar-lein ar hyn o bryd a elwir yn 'ariannu torfol'. Mae'r galw'n parhau am godi arian drwy gasglu ar y stryd, fodd bynnag mae amllder ac, yn y pen draw, llwyddiant y casgliadau hyn yn dibynnu ar nifer yr ymwelwyr sy'n cael eu denu at yr ardal gasglu.

4.7

Mae copi o'r Polisi Casglu ar y Stryd arfaethedig ar gael yn Atodiad A.

5. **YMGYNGHORI**

5.1

O ystyried y bydd y polisi arfaethedig yn cwmpasu pob agwedd o'r broses a'r gofynion, mae Swyddogion wedi asesu nad oes newid sylweddol i bwrpas y polisi presennol, fel y manylir yn adran 4.3 uchod, ac os bydd Aelodau o blaid cefnogi'r Polisi Casglu ar y Stryd arfaethedig, bydd ymgynghoriad ond yn cael ei gynnal â sefydliadau elusennol sydd wedi ymgeisio a chasglu o fewn y Sir yn ystod y 12 mis diwethaf.

5.2

Gofynnodd Aelodau bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu pe ceid gwrthwynebiadau, er mwyn galluogi i Aelodau ystyried ymatebion. Fodd bynnag, os na dderbynnir gwrthwynebiadau, cynigir bod Aelodau'n cymeradwyo mabwysiadu'r polisi.

6. **ARGYMHELLION**

- 6.1 Bod Aelodau'n ystyried cefnogi'r Polisi Casglu ar y Stryd arfaethedig, fel y manylir yn Atodiad A, ac wrth wneud hynny, yn awdurdodi Swyddogion i gychwyn ar broses ymgynghori ffurfiol, fel y manylir yn 5.1.
- 6.2 Ar ôl ymgynghori, bod Swyddogion yn:
- i. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Trwyddedu am unrhyw wrthwynebiadau iddyn eu hystyried a chymeradwyo'r Polisi arfaethedig newydd.
 - ii. Os na cheir ymatebion, bod Aelodau yn cymeradwyo i fabwysiadu'r Polisi Casglu ar y Stryd yn weithredol, o 1 Ebrill 2020.